Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pecyn Cyfnod Allweddol 2

Ch.
Llinell amser data perfformiad ysgol

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2012

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y pecyn hwn at:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6014

e-bost: IMS@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn **dysgu.cymru.gov.uk**

ISBN digidol 978 0 7504 8400 8
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17118

Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol: CA2

1. Cyflwyniad

1.1. Mae tudalen gyntaf y ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r casgliadau data a'r wybodaeth am berfformiad allweddol a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ddyddiadau casglu data allweddol er mwyn sicrhau y darperir data cywir ac amserol gan mai'r data hyn yw sail y datganiadau data sy'n hanfodol i werthuso perfformiad a phennu targedau.

1.2. Mae'r Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol ganlynol yn rhoi gwybodaeth am y data sydd ar gael i'r ysgol gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn, a ble y gallwch ddod o hyd i'r data hyn. Mae hefyd yn rhoi manylion am ba ddata sydd yn y datganiad am CA2 a'r ffyrdd y gellir defnyddio'r data hyn.

1.3. Caiff fersiynau gwahanol o'r dogfennau hyn eu rhyddhau yn ystod y flwyddyn. Bydd y fersiynau terfynol yn cynnwys mwy o ddata nag a ddarparwyd mewn fersiynau cynharach wrth i fesurau ychwanegol ddod ar gael drwy'r flwyddyn.

1.4. Bydd y data hyn i gyd ar gael i'ch ysgol drwy un o ddwy system, DEWi neu Ffynnon. Gellir defnyddio'r ddwy system drwy'r Porth Ysgolion. Mae'r llinell amser yn nodi ar ba system mae pob datganiad data fel y gallwch ofyn i'r rhai hynny yn eich ysgol sy'n gallu defnyddio'r systemau hyn i roi'r data angenrheidiol i chi.

1.5. Mae defnyddio data i werthuso perfformiad a phennu targedau nid yn unig yn arfer da, ond mae’n ddyletswydd reoliadol ar ysgolion i gyhoeddi eu hadroddiad cymharol diweddaraf ar berfformiad yr ysgol yn eu Hadroddiadau i Rieni, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion bennu targedau, gan gynnwys o leiaf dri tharged sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses hunanwerthuso. Mae'r data y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i ysgolion yn cefnogi'r broses hunanwerthuso hon. Mae rhagor o wybodaeth am y rheoliadau gwybodaeth ysgolion ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

1.6. Er bod y data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ysgolion yn fan cychwyn da i waith hunanwerthuso, dim ond codi cwestiynau mae ystadegau a dylid eu defnyddio fel man cychwyn i drafod beth sy'n digwydd mewn ysgol, y cryfderau, y gwendidau a meysydd i'w hystyried a chanolbwyntio arnynt ymhellach. Mae'r golofn 'defnydd o

ddata' yn y tabl yn adran 3 yn cyfeirio at ganllawiau manwl sy'n nodi'r mathau o gwestiynau a allai godi a'r trafodaethau y gellid eu cynnal ynghylch y data. Nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr o bell ffordd ond gallant ysgogi syniadau ynghylch sut i ddefnyddio'r data i geisio gwella ysgol.

1.7. Mae rhestr o dalfyriadau, acronymau a thermau ar gael i gyd-fynd â'r deunydd cwrs hwn er gwybodaeth i chi ac mae dolenni i ragor o wybodaeth berthnasol ar gael drwy gydol y ddogfen.

2. Crynodeb o Gasgliadau a Datganiadau Data Allweddol

Mae'r tabl hwn yn rhestru'r data allweddol a gesglir gan ysgolion a'r datganiadau allweddol ar ddata perfformiad gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn ysgol o fis Medi i fis Awst. Er bod y ddwy eitem gyntaf yn cael eu rhyddhau tua diwedd y flwyddyn ysgol flaenorol, fe'u dangosir ar ddechrau'r llinell amser hon gan fod angen y rhain er mwyn gallu gwneud paratoadau ymlaen llaw cyn cael datganiadau data mis Medi.

Dyddiad	**Math**	**Teitl y Casgliad neu'r Datganiad**
Gorffennaf	Datganiad	**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** Datganiad rhagarweiniol o **deuluoedd o ysgolion**.
Diwedd Awst	Datganiad	Datganiad ar yr **Adroddiad Cymharol Ysgol** (gan gynnwys meincnodi FSM).
Wythnos gyntaf Medi	Datganiad	Datganiad **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** yn cynnwys data CA2 terfynol a chyd-destunol, ond heb gynnwys data FSM/dim FSM. Ni fydd data FSM/dim FSM ar gael tan fis Rhagfyr.
Canol Medi	Casgliad	Mae'n rhaid cyflwyno'r casgliad data ar **bresenoldeb** i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ysgol gyflwyno'r casgliad i'r Awdurdod Lleol cyn hyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r ysgol am ei ddyddiad cau.
Tymor yr Hydref	Cam Gweithredu	Drwy gydol tymor yr hydref, dylid defnyddio data i hunanwerthuso. Mae'r ddogfen dadansoddiad data enghreifftiol a ddarperir gyda'r deunydd cwrs hwn yn rhoi enghraifft o waith hunanwerthuso gan ddefnyddio'r data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr hunanwerthusiad hwn hefyd yn cyfrannu at y gwaith o bennu targedau erbyn diwedd mis Rhagfyr.
Diwedd Rhagfyr	Cam Gweithredu	Mae'n ofynnol i bob ysgol bennu targedau a'u cyflwyno i'w Hawdurdod Lleol erbyn diwedd mis Rhagfyr fel y gellir cytuno arnynt. Ers 2011, mae'n ofynnol bellach i ysgolion bennu o leiaf dri tharged lleol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd drwy'r broses hunanwerthuso gan ystyried Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a

		gwybodaeth arall am berfformiad. Dylai'r targedau hyn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fel y maent yn berthnasol i'r ysgol dan sylw.
Canol Ionawr	Datganiad	Datganiad **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** gan gynnwys data terfynol ar bresenoldeb mewn ysgolion cynradd.
Canol Ionawr	Casgliad	Diwrnod cyfrifiad **CYBLD**.
Canol Mawrth	Casgliad	Mae'n rhaid cyflwyno data **CYBLD** i Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w Hawdurdod Lleol cyn hyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r ysgol am ei ddyddiad cau.
Canol Mai	Casgliad	Mae'n rhaid cynnwys pob disgybl sydd ar y gofrestr ar ddyddiad penodol yn y datganiad **Casglu Data Cenedlaethol**.
Canol Mehefin	Casgliad	Mae'n rhaid cyflwyno data'r ymarfer **Casglu Data Cenedlaethol** i Lywodraeth Cymru. Bydd ysgolion yn cyflwyno data i'w Hawdurdod Lleol cyn hyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi gwybod i'r ysgol am ei ddyddiad cau.

2.1. **‘Setiau Data Craidd Cymru Gyfan’:** maent yn cynnwys Pecyn Cyd-destunol a Phecyn Perfformiad ar gyfer pob Cyfnod Allweddol i bob ysgol. Mae'r rhain yn darparu cyfres gyson a chytbwys o ddadansoddiadau cyd-destunol mewn perthynas ag asesiadau a gynhelir ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol. Fe’u bwriadwyd i helpu ysgolion i hunanwerthuso a gwella perfformiad ac i lywio gwaith gyda Swyddogion Gwella Awdurdodau Lleol a Chonsortia, ac Estyn. Darperir Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i ysgolion ac ALlau fel adnoddau dadansoddi cyd-destunol defnyddiol i ystyried atebolrwydd a chynllunio o fewn amgylchiadau unigol ysgol.

2.2. **Teuluoedd o ysgolion:** crëwyd y rhain i ddarparu grwpiau o ysgolion sy'n wynebu'r un lefel o her yn gyffredinol a all weithio gyda'i gilydd i wella ysgolion. Crëwyd y teuluoedd drwy rannu ysgolion yn grwpiau yn seiliedig ar eu maint a'u hiaith addysgu i ddechrau ac yna, o fewn pob grŵp lefel uchel, caiff ysgolion eu gosod mewn trefn ddisgynnol yn unol â gwerthoedd mynegrif 'her'. Cyfrifir y mynegrif hwn ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lefelau amddifadedd, disgyblion ag AAA a disgyblion SIY.

2.3. **Adroddiad Cymharol Ysgol:** mae'n rhoi crynodeb o berfformiad ysgol yn yr asesiadau a gynhelir ar ddiwedd CA2, gan ddangos tueddiadau dros amser a chymharu â pherfformiad yr ALl a pherfformiad Cymru ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Mae’n dangos hefyd berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill sydd â chanran debyg o ddisgyblion sy’n gymwys i gael FSM. Bwriedir iddo fod o gymorth i waith hunanwerthuso a gwella perfformiad ysgol. Mae’n ddyletswydd reoliadol ar ysgolion i gyhoeddi eu Hadroddiad Cymharol diweddaraf yn eu Hadroddiadau i Rieni, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a Phrosbectws yr Ysgol.

2.4. **Casglu data presenoldeb:** ymarfer i gasglu data ar bresenoldeb ac absenoldeb ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol a oedd ar y gofrestr yn ystod y cyfnod adrodd. Cyflwynir y data hyn i Lywodraeth Cymru ar y wefan trosglwyddo a dilysu ffeiliau ddiogel, DEWi, lle cânt eu dilysu, eu cyfuno a'u dadansoddi gan Lywodraeth Cymru. Yn achos ysgolion cynradd, y flwyddyn academaidd lawn yw'r cyfnod adrodd. Mae rhagor o wybodaeth a nodiadau cwblhau ar gael yma.

2.5. **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD):** ymarfer statudol i gasglu gwybodaeth am ysgolion a manylion a nodweddion disgyblion unigol. Cyflwynir y data hyn i Lywodraeth Cymru ar y wefan trosglwyddo a dilysu ffeiliau ddiogel, DEWi, lle cânt eu dilysu, eu cyfuno a'u dadansoddi gan Lywodraeth Cymru.

Caiff gwybodaeth am ddisgyblion unigol ei chofnodi a'i chadw o dan "rif disgybl unigryw". Fel rhan o'r CYBLD, mae'n ofynnol hefyd darparu gwybodaeth ar lefel ysgol am staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, dosbarthiadau a addysgir a swyddi addysgu gwag. Mae llawer o'r data cyd-destunol a ddefnyddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn dod o ddata CYBLD. Mae'n bwysig bod ysgolion yn cofnodi data cywir fel rhan o'r CYBLD er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad a ryddheir gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ac yn briodol i'r ysgol a'r ALl. Mae'r meysydd sy'n ymwneud â chymhwysedd disgybl i gael prydau ysgol am ddim, cod post, statws SIY, ac anghenion addysgol arbennig, ac iaith addysgu'r ysgol yn arbennig o bwysig, a defnyddir y rhain i gyd ar hyn o bryd i ffurfio'r grwpiau teuluoedd o ysgolion sy'n sail i Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Mae rhagor o wybodaeth am CYBLD gan gynnwys nodiadau cwblhau ar gael yma.

2.6. **Casglu Data Cenedlaethol:** ymarfer statudol i gasglu data asesu athrawon ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Cyflwynir y data hyn i Lywodraeth Cymru ar y wefan trosglwyddo a dilysu ffeiliau ddiogel, DEWi, lle cânt eu dilysu, eu cyfuno a'u dadansoddi gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y data a gyflwynir drwy'r ymarfer casglu data hwn gan Estyn i lywio ei harolygiadau ac fe'u defnyddir i lunio'r Adroddiad Cymharol Ysgol a Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymarfer Casglu Data Cenedlaethol, gan gynnwys nodiadau cwblhau ar gael yma.

3. Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol CA2

	Datganiad Data	Ble	Cynnwys	Defnydd o Ddata
Gorffennaf	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (Rhagarweiniol)	DEWi	• Teuluoedd o ysgolion. • Data a ddefnyddiwyd gyda chyfrifiadau teuluoedd.	• Caiff teuluoedd eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf ar gyfer y flwyddyn ysgol ganlynol. Er ei bod yn bosibl na fydd teuluoedd yn newid bob blwyddyn, efallai y bydd newidiadau os bydd ysgolion yn agor, yn cau neu'n uno, felly mae'n bwysig nodi pa ysgolion sydd yn yr un teulu â chi bob blwyddyn. • Mae teuluoedd yn ddefnyddiol pan gaiff data perfformiad eu cynhyrchu'n ddiweddarach gan eu bod yn eich galluogi i gymharu perfformiad ag ysgolion eraill sy'n wynebu'r un lefel o her yn gyffredinol. • Gellir defnyddio'r data a ddefnyddir gyda chyfrifiadau teuluoedd er mwyn deall pa ffactorau tebyg sydd rhwng eich ysgol chi ac ysgolion eraill yn y teulu. • Mae'r rhestr o deuluoedd hefyd yn dangos safle eich ysgol yn y teulu, gyda'r ysgol sy'n wynebu'r lefel fwyaf o her yn ôl y mynegrif her yn y safle uchaf. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth gymharu data perfformiad ag ysgolion eraill yn yr un teulu gan ei bod yn bosibl gweld a yw'r ysgolion sy'n perfformio'n well yn wynebu mwy o her neu lai o her a beth yw'r heriau hyn. • Mae hefyd yn ddefnyddiol cyfeirio'n ôl i nodi ysgol a threfnu i rannu unrhyw arferion gorau sydd gan yr ysgol hon.

Awst	Adroddiad Cymharol Ysgol	DEWi	• Canran y disgyblion yn yr ysgol sy'n cyflawni'r DPC, a'r lefel ddisgwyliedig neu lefel uwch (Lefel 4+) ym mhob un o'r pynciau craidd, a ddadansoddir hefyd yn ôl y rhywiau ac o gymharu â'r ALl a Chymru. • Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC a'r lefel ddisgwyliedig neu lefel uwch ym mhob un o'r pynciau craidd a ddangosir dros bum mlynedd. • Data meincnodi FSM.	• Defnyddio ar gyfer gwaith hunanwerthuso a phennu targedau mewn ysgolion. • Gellir defnyddio'r data hyn i ystyried sut mae'r ysgol yn perfformio yn gyffredinol. • A oes unrhyw feysydd lle mae'r ysgol yn perfformio'n arbennig o dda neu unrhyw feysydd lle nad yw'n perfformio cystal ac a oes rhesymau dros hyn? Pa strategaethau a roddwyd ar waith /y gellir eu rhoi ar waith i wella perfformiad yn y maes hwn? • Mae'r data hyn yn ddefnyddiol wrth ystyried unrhyw dueddiadau. Beth all fod yn achosi'r tueddiadau hyn? A yw perfformiad wedi gwella'n arbennig mewn unrhyw bwnc penodol? Os felly, a ddefnyddiwyd strategaethau yn y maes hwn y gellir eu trosglwyddo i wella perfformiad mewn meysydd eraill? • Ar gyfer DPC a phob un o'r pynciau craidd, caiff canlyniadau'r ysgol eu meincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael FSM. Gallwch weld ar gyfer pob pwnc a yw eich ysgol yn perfformio o fewn y 25% uchaf, yr 50% uchaf, yr 50% isaf, neu'r 25% isaf o ysgolion yn yr un grŵp meincnodi. Wrth ystyried meincnodi, mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried safle'r ysgol o fewn y grŵp. A yw ar frig y grŵp ac felly o dan anfantais gymharol neu ar y gwaelod ac felly'n cael mantais gymharol. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, Pecyn Cyd-destunol
Medi	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Cyd-destunol	Ffynnon	• Nifer y disgyblion, a ddangosir hefyd yn ôl y rhywiau dros bum mlynedd. • Disgyblion yn ôl cefndir ethnig, hefyd o	• Defnyddio ar gyfer gwaith hunanwerthuso a phennu targedau mewn ysgolion ac i ymgysylltu ag ysgolion eraill yn y teulu er mwyn rhannu arfer gorau.

			gymharu â'r ALl. • Disgyblion SIY yn ôl lefel caffael iaith, hefyd o gymharu â'r ALl. • Canran y disgyblion â darpariaeth AAA dros bum mlynedd. • Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael FSM dros bum mlynedd, ac o gymharu â'r ALl a Chymru. • Grŵp meincnodi FSM • Maint carfannau dros bum mlynedd, a ddangosir hefyd yn ôl y rhywiau. • Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC a Lefel 4+ yn y pynciau craidd.	• Darperir nodiadau cyfarwyddyd gyda'r pecyn cyd-destunol, cyfeiriwch at y rhain am wybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio'r data hyn.
Medi	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Datganiad Perfformiad 1	Ffynnon	• Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC. • Caiff y data hyn eu cymharu â phob un o'r ysgolion eraill yn yr un teulu, ac fe'u dangosir hefyd yn ôl y rhywiau. • Caiff canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn y teulu ei chymharu hefyd â'r ALl a Chymru. • Ar gyfer pob pwnc craidd, rhoddir canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel	• Defnyddio ar gyfer gwaith hunanwerthuso a phennu targedau mewn ysgolion ac i ymgysylltu ag ysgolion eraill yn y teulu er mwyn rhannu arfer gorau. • Darperir nodiadau cyfarwyddyd gyda'r pecyn perfformiad, cyfeiriwch at y rhain am wybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio'r data hyn.

			4+ a Lefel 5+. • Caiff y data hyn eu cymharu â phob un o'r ysgolion eraill yn yr un teulu, ac fe'u dangosir hefyd yn ôl y rhywiau. • Caiff canran y disgyblion sy'n cyflawni pob un o lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ei chymharu â'r teulu, yr ALl a Chymru. Dangosir hyn hefyd yn ôl y rhywiau. • Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd a chanran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb anawdurdodedig dros bum mlynedd, hefyd yn ôl y rhywiau • Dangosir cymhariaeth o ddata presenoldeb ysgolion yn yr un teulu a chaiff data'r teulu eu cymharu yn erbyn yr ALl a Chymru • Meincnodau FSM ar gyfer Lefel 4+ a Lefel 5+ yn y pynciau craidd ac yn y DPC	
Ionawr	Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Datganiad Perfformiad 2	Ffynnon	• Yr un data â'r datganiad cyntaf yn ogystal â • Cymhariaeth FSM/dim FSM ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni'r DPC. Caiff y data hyn eu cymharu â phob un o'r	• Defnyddio i adolygu gwaith hunanwerthuso a phennu targedau mewn ysgolion a gwneud newidiadau lle bo hynny'n briodol, ar sail data newydd ac ymgysylltu ag ysgolion eraill yn y teulu er mwyn rhannu arfer gorau. • Darperir nodiadau cyfarwyddyd gyda'r pecyn

			ysgolion eraill yn yr un teulu. Caiff data'r teulu eu cymharu â'r ALl a Chymru hefyd.	perfformiad, cyfeiriwch at y rhain am wybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio'r data hyn.

4. Rheoliadau

4.1. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer cyffredinol i gasglu data gan ysgolion o dan adran 29 o Ddeddf Addysg 1996.

4.2. Mae nifer o reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gasglu data, gan gynnwys:

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011
- Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol casglu data penodol a gwneir hyn wrth gasglu data CYBLD, data Presenoldeb a data'r ymarfer Casglu Data Cenedlaethol.

4.3. Mae nifer o reoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi data, fel a ganlyn:

- Mae Rheoliadau Addysg (Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiad cymharol.
- Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiad cymharol.
- Mae Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgolion a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi data a phennu targedau gan ddefnyddio'r data.

4.4. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y pwerau a'r gofynion sy'n ymwneud â chasglu a chyhoeddi data ysgolion drwy'r ddolen 'Rheoliadau Addysg Diwygiedig 2011' ar y Porth Ysgolion: http://schoolportalwales.org.uk/home.aspx.

5. Diogelu Data

5.1. Wrth gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion mae'r ysgol yn gweithredu fel 'Rheolwr Data' ac, fel y cyfryw, mae'n rhaid iddi fodloni rhwymedigaethau penodol i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n ofynnol

i ysgolion roi Hysbysiadau Preifatrwydd i blant a phobl ifanc a/neu rieni a gwarcheidwaid sy'n crynhoi'r wybodaeth a gedwir am blant a phobl ifanc, y rheswm dros ei chadw, a'r trydydd partïon y gellir trosglwyddo'r wybodaeth iddynt. Mae templed o hysbysiad o'r fath ar gael yma. Am ragor o wybodaeth, darllenwch y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth ac am wybodaeth fanwl am y Ddeddf Diogelu Data a chyfrifoldebau o dan y ddeddf, ewch i Wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

6. Data Biometrig

6.1. Cyflwynodd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ddyletswyddau newydd ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n defnyddio systemau adnabod biometrig wedi'u hawtomeiddio, er enghraifft, y rhai sydd â systemau technoleg olion bysedd at ddibenion arlwyo heb ddefnyddio arian parod neu er mwyn galluogi disgyblion i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell.

6.2. Disgwylir i'r dyletswyddau newydd ddechrau o 1 Medi 2013. Mae canllawiau'n cael eu llunio ar hyn o bryd ar sut i fodloni'r gofynion cyfreithiol newydd a dylai'r rhain fod ar gael erbyn diwedd y flwyddyn.